

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Mercher Gŵyl Ddiolchgarwch Llanefydd. Gwasanaeth gan blant yr ysgol am 10.30 a bydd pregeth gan y Parch. Hywel Meredydd am 7.00.
- Iau Cymdeithas Cefn Berain – Noson agoriadol am 7.30 yng nghwmni Bob Fron Felen a Bryn Foxhall fydd yn adrodd hanes eu taith i Batagonia. Croeso i bawb.
- Gwener Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Cefn Berain am 7.00 pryd y bydd y Parch. Nesta Davies yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Bob Davies (Llanfair) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai dyddiau, a chofiwn hefyd am Bronwen Williams (Cefn Berain) gafodd lawdriniaeth yno yn ystod yr wythnos. Da deall bod Morfudd Roberts (Llanefydd) wedi cael dod adre erbyn hyn. Cyflwynwn y tri ohonynt ac eraill o'r Fro sydd heb fod cystal eu hiechyd i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Aled a Nerys Jones (Saron) ar enedigaeth merch fach, Elsa Mair, chwaer fach i Ifan a Harri. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.
- Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Elwyn Williams (Llansannan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yfory!

I ddod

- **GWASANAETH DIOLCHGARWCH Y PLANT YN LLANSANNAN** dydd Sul, Tachwedd 3ydd am 10.00 gydag anerchiad gan Aneurin.
- **GWASANAETH DIOLCHGARWCH Y PLANT YNG NGHEFN MEIRIADOG** dydd Sul, Tachwedd 3ydd am 2.00 yng nghwmni Arawn Glyn. Bydd cyfle hefyd i roi rhoddion tuag at y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda.
- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca, Tachwedd 8fed – 10fed. Manylion llawn ar gael gan Mair.

Dalier Sylw

Anfonwch eich cyhoeddiadau erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda, i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Hydref 2013

Darlleniad y Dydd

1 Cronicl 11:1-3

(BCND tud.376 / BCN: tud.344)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Dydd da a chroeso cynnes i bawb ohonoch i'n amrywiol oedfaon ar hyd y fro heddiw. Wrth groesawu pawb, rydym am estyn croeso arbennig i John Derek Rees i'n plith. Bydd yn pregethu yn Oedfa'r Fro yn Llansannan heno, gydag ieuencid CIC hefyd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth – dewch yn llw i'w clywed! I'r rhai ohonoch sydd ddim yn adnabod Derek, nid yw'n ddieithr i'r ardal gan iddo dreulio blwyddyn ym Mro Aled wrth gael ei hyfforddi ar gwrs DAWN ychydig flynyddoedd yn ôl. Erbyn hyn mae Derek yn weinidog sy'n arwain cenhadaeth arbennig yn Abertawe trwy blannu Capel Gomer yng nghanol y ddinas, ac mae'n cydweithio â nifer o eglwysi ar gyrion y ddinas hefyd. Gweddiwn am eneniad ar Derek yn ein plith ac am fendith helaeth ar ei weinidogaeth yn Abertawe.

Yn ein darlleniad o 1 Cronicl heddiw, gwelwn Dafydd yn cael ei eneinio'n frenin ymhlith ei bobl. Er mor annisgwyl o safbwynt dynol oedd dyrchafu mab ieuengaf Jesse i fod yn frenin ar Israel, cyflawnwyd bwriad Duw. Ac wrth i Dafydd gael ei eneinio yn frenin, rhoddwyd iddo'r cyfrifoldeb aruthrol gan Dduw i fugeilio ei bobl a bod yn dywysog arnynt. Dwi'n siŵr y byddai llawer o'r Israeliaid wedi mwynhau dathlu eneniad Dafydd yn frenin, yn union fel y mae cefnogwyr pleidiau gwleidyddol yn mwynhau dathlu buddugoliaethau etholiadol yn ein dyddiau ni. Yn ystod y dyddiau llawen hynny, mae'n ymddangos fod popeth yn dda, ac amseroedd anodd wedi cilio. Ond o fewn dim, daeth yr Israeliaid i sylweddoli fod brwydrau yn parhau i wynebu'r brenin newydd ac nad oedd yntau ychwaith uwchlaw syrthio i bechod. O roi eu ffydd i gyd yn Nafydd, mae'n debyg mai siom a brofwyd ganddynt yn y pen draw gan fod amheuaeth a thrafferthion wedi parhau, ac yna ddadfeiliad wedi dod ymhen ychydig genedlaethau. Beth mae hyn yn ei ddysgu i'r Cristion – peidio disgwyl cymaint? Dim ar unrhyw gyfrif! I'r Cristion, y wers yw peidio â phwyso nac ymddiried yn llwyr mewn meidrolion, ond yn hytrach rhoi ein ffydd yn yr un yr oedd Dafydd yn gysgod ohono. Yn Iesu Grist, daeth y gobaith am frenin da y gellid ymddiried yn llwyr ynddo yn realiti tragwyddol. Iesu yw'r bugail da a roddodd ei einioes dros ei ddefaid (Ioan 10:14-15), a'r tywysog heddychlon heb ddiwedd ar gynnydd ei lywodraeth (Eseia 9:6-7). Beth bynnag fo'r anhawster, yr amheuan neu'r amgylchiadau sy'n ein hwynebu, dylai'r Cristion droi yn hyderus at Frenin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi a derbyn yn ddiolchgar o'i holl roddion. Diolchwn i Dduw am Un na fydd byth yn ein siomi.

Rhodri

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma

Oedfa Arbennig i'r Fro

yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00
yng nghwmni'r Parch. John Derek Rees
a rhai o ieuencid y Fro,
gyda Huw Tan y Graig yn arwain.

- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)**. Cyfarfod yn y Granar yn Llansannan am 4.30 ac yna byddwn yn mynd i'r Bala i glywed yr hyn sydd gan Megan Jones i'w rannu.
- Mawrth • **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** yng Nghapel Peniel am 7.30 pryd y bydd Dr Mair Edwards, Henllan gynt, yn sôn am ei gwaith fel Seicolegydd.
- Mercher • **Adnabod** – Grŵp Celfyn yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• **“Ewch yn ei Enw Ef”** (gan y Parch. Ddr. Elwyn Richards). Cynhelir y drydedd noson yn y gyfres hyfforddi yn Y Tabernacl, Rhuthun am 7.00. Arweinir y noson gan aelodau Bro Rhuthun. Croeso cynnes i bawb (nid oes rhaid eich bod wedi mynychu y nosweithiau blaenorol – mae pob uned yn annibynnol).
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
Sadwrn • **Cwrs Ieuencid ar Daith** rhwng 12.00 a 5.00 yng Nghanolfan Bro Aled, Llansannan. Bydd cinio wedi ei baratoi i chi a bydd llwyth o weithgareddau amrywiol – y cyfan am £5. Cysylltwch â Steff neu Gwenno ar www.facebook.com/cwrs.ieuencid neu ffoniwch Coleg y Bala (01678 520565) am fwy o wybodaeth.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Saron (sylwch ar y newid lleoliad) am 2.00 pryd y bydd Rob ac Einir yn cyflwyno Robin Llewelyn i'w fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Hywel Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00, ac i'r oedolion yn unig yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Iau Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghefn Meiriadog am 7.00 pryd y bydd y Parch Ddr Geraint Tudur, Bangor yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Cymdeithas Llansannan yn cyfarfod yn y Ffestri am 7.30 gyda Theulu Ieuan Edwards, Plas Ednyfed, Llanrwst yn diddanu. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher Oedfa Ddiolchgarwch Undebol yn Ffestri Capel Coffa Henry Rees am 7.30 gyda'r Parch. Carwyn Siddall yn pregethu.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. T. E. Williams yn arwain oedfa ddiolchgarwch i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Gwener Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel y Groes am 7.00 pryd y bydd y Parch. Thomas Evans Williams yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd oedfaon wedi eu trefnu yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.